

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb manwl o'r cwrs MA Rheolaeth yn y Celfyddydau a gynigir o fis Medi 2021. A fyddech cystal â nodi er bod y wybodaeth hon yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir o fis Medi 2021, gallai gael ei haddasu a'i newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn gallu symud drwy'r cwrs, bydd angen i fyfyrwyr *fel arfer* lwyddo yn yr holl fodiwlau ac ennill 180 o gredydau.

Mae tri llwybr arbenigol i'r cwrs MA:

- Rheolaeth yn y Celfyddydau Cyffredinol
- Cynhyrchu Creadigol
- Rheolaeth Cerddorfaol

MA Rheolaeth yn y Celfyddydau - pob llwybr	
Y Sector Creadigol	20
Lleoliad Gwaith	20
Lleoliad Proffesiynol	40
Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 1 – Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 2 - Cyllid	20
Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 3 - Cynllunio	20
Llwybr: Rheolaeth yn y Celfyddydau Cyffredinol	
Codi Arian	10
Datblygu Cynulleidfa a Chyfathrebu	20

Hygyrchedd a Chyfranogi	10
Llwybr: Cynhyrchu Creadigol	
Cynhyrchu Creadigol	40
Llwybr: Rheolaeth Cerddorfaol	
Rheolaeth Cerddorfaol a Chynllunio Cyngerdd	40

MA Rheolaeth yn y Celfyddydau – pob llwybr

Y Sector Creadigol

Asesiad: Cynnig ar gyfer Taith (100%)

Bydd y modiwl yn cyflwyno'r myfyrwyr i amrywiaeth a chymhlethdod cwmnïau a lleoliadau celfyddydau perfformio a rolau proffesiynol gweithwyr ynddynt, o fewn y sectorau cymorthdaledig a masnachol yn ogystal â chynhyrchu a chyflwyno. Gyda phwyslais ar ddangos arfer cyfredol ac arfer gorau ar draws y sector o ran modelu contractiol a hyfywedd, bydd myfyrwyr yn datblygu synthesis o ddealltwriaeth mewn ystod o feysydd sy'n ymwneud â gweinyddu'r celfyddydau.

Lleoliad Gwaith

Asesiad: Ymarferol (75%), Cofnod Myfyriol Ysgrifenedig (25%)

Nod y modiwl hwn yw rhoi profiad ymarferol i'r myfyrwyr o reolaeth yn y celfyddydau yn eu dewis faes (feysydd), ac felly gwella'n sylweddol eu profiad ymarferol tra'n datblygu eu dyheadau o ran gyrfa. Bydd y modiwl hefyd yn datblygu sgiliau arfer gweithio myfyriol myfyrwyr unigol. Yn sail i'r gwaith ymarferol cynhelir nifer o ddosbarthiadau meistr seminar lefel uwch gydag ymarferwyr blaenllaw yn y diwydiant ac fe'u cefnogir gan Ddysgu Gweithredol.

Lleoliad Proffesiynol

Asesiad: Ymarferol (75%), Adroddiad Ysgrifenedig (25%)

Bydd myfyrwyr yn treulio cyfnod ar leoliad gwaith proffesiynol, yn allanol i'r Coleg gydag un o'n sefydliadau partner, o fewn canolfan gelfyddydau'r Coleg neu gyda sefydliad o'u dewis. Er y caiff lleoliadau eu teilwra'n ofalus er mwyn cyfateb i ddymuniadau gyrfaol unigol pob myfyriwr MA Rheolaeth yn y Celfyddydau, rheolir disgwyliadau myfyrwyr o'r diwydiant yn y broses gyfatebu. Gall myfyrwyr ddewis eu lleoliad gwaith eu hunain cyn belled ei fod yn bodloni'r canllawiau dysgu seiliedig ar waith y mae'r cwrs yn cadw atynt.

Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 1, 2 a 3

Mae'r modiwlau hyn yn llunio cyfres sy'n tanategu pob dysgu sy'n ymwneud â rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y sector creadigol.

Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 1 – Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Asesiad: Traethawd Arweinyddiaeth (100%)

Y modiwl craidd hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o fodiwlau rheolaeth ac arweinyddiaeth sy'n cefnogi ffocws galwedigaethol y cwrs. Mae disgwyl i fyfyrwyr ddangos dealltwriaeth gref o drafodaethau cyfoes yn y maes, gan fynd i'r afael â materion rheoli sy'n effeithio ar, ac yn aml yn peryglu sefydlogrwydd, sefydliadau celfyddydol.

Ynghyd â datblygu sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth ymarferol, bydd ystod o seminarau a thrafodaethau yn annog myfyrwyr i roi eu gwybodaeth mewn cyd-destun beirniadol, gan feithrin dealltwriaeth o'r maes celfyddydau cyfoes a datblygu sgiliau er mwyn dod yn arweinwyr diwylliannol.

Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 2 - Cyllid

Asesiad: Cynllunio Ariannol (100%)

Yn yr ail fodiwl hwn o'r gyfres sy'n dwyn y teitl 'Rheoli Sefydliadau Diwylliannol', bydd myfyrwyr yn gallu cymhwyso prif egwyddorion theori ariannol i broblemau cyfoes yn y sector creadigol tra'n dangos dealltwriaeth o rinweddau cymharol gwahanol ddulliau ar gyfer cyfrifyddu.

Rheoli Sefydliadau Diwylliannol 3: Cynllunio

Asesiad: Adroddiad Ymgynghoriaeth (100%)

Mae'r trydydd modiwl, a'r un olaf yn y gyfres 'Rheoli Sefydliadau Diwylliannol', yn galluogi myfyrwyr i ddangos gwreiddioldeb ac aeddfedrwydd meddwl, yn ogystal â chyfuno sgiliau y maent wedi'u datblygu drwy gydol y gyfres o fodiwlau, er mwyn llunio cynllun prosiect newydd neu astudiaeth ddichonoldeb sy'n ymateb i angen presennol mewn sector. Mae'r modiwl hefyd yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith o ran datblygu sgiliau DPP.

Os ydynt yn gweithio yn y diwydiant, gall myfyrwyr ddewis eu prosiect eu hunain sy'n berthnasol i'w sefydliad yn hytrach na dilyn y briff a ragnodir (byddai angen cytuno ar hyn ymlaen llaw gydag arweinydd y modiwl a Phennaeth Rheolaeth yn y Celfyddydau).

Llwybr: Rheolaeth yn y Celfyddydau Cyffredinol

Codi Arian

Asesiad: Cais Ysgrifenedig i Ymddiriedolaeth (100%) neu Gyflwyniad Ymarferol i Noddwr (100%)

Nod y modiwl yw rhoi mewnwelediad i'r myfyrwyr o'r ffyrdd amrywiol yr ariennir sefydliadau celfyddydol a datblygu eu sgiliau i lunio cynigion codi arian o safon broffesiynol, tra'n datblygu sgiliau rheolaeth yn y celfyddydau ymarferol mewn cyd-destun codi arian a datblygu. Mae pwyslais mawr ar ddatblygu dull strategol ar gyfer codi arian yn ogystal â chymhwyso sgiliau a ddysgwyd i greu cynlluniau buddsoddiadwy mewn lleoliad proffesiynol.

Datblygu Cynulleidfa a Chyfathrebu

Asesiad: Portffolio Ysgrifenedig (100%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r myfyrwyr o faes marchnata'r celfyddydau ar lefel ymgyrch gan gynnwys egwyddorion marchnata, gosod amcanion, nodi marchnadoedd, datblygu cyrsiau cymysgedd marchnata, monitro a gwerthuso. Bydd myfyrwyr yn cymhwyso sgiliau a ddysgwyd i arfer proffesiynol er mwyn cynhyrchu ymgyrch farchnata ar gyfer digwyddiad penodol neu gyfres o ddigwyddiadau, megis gŵyl.

Hygyrchedd a Chyfranogi

Asesiad: Cyflwyniad Grŵp (100%)

Bydd y modiwl yn rhoi mewnwelediad manwl i'r myfyrwyr o ethos ac arfer gwaith yn y celfyddydau mewn cyd-destunau addysg a chymunedol tra'n datblygu dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y sector. Bydd myfyrwyr yn gallu datblygu eu sgiliau gweithio'n unigol ac fel rhan o dîm er mwyn creu cynnig ar gyfer prosiect gwreiddiol, arloesol a pherthnasol i'w ddefnyddio naill ai mewn lleoliad addysg neu gymunedol.

Llwybr: Cynhyrchu Creadigol

Asesiad: Cynnig Prosiect (75%), Gwerthuso Prosiect (25%)

Bydd y modiwl yn rhoi sgiliau ymarferol, gwybodaeth a meddwl strategol i'r myfyrwyr yn ogystal â sgiliau meddal megis cyfathrebu, dylanwadu a chyflwyno er mwyn llywio eu hymarfer fel cynhyrchydd creadigol mewn cyd-destun economaidd a diwylliannol cyfnewidiol, tra'n deall materion ymarferol allweddol a thrafodaethau sy'n berthnasol i'w hymarfer eu hunain. Cymhwysir sgiliau a ddysgwyd er mwyn dethol, rheoli a gwerthuso prosiect a ddewisir gan y myfyrwyr eu hunain. Anogir myfyrwyr i ymgysylltu'n ddeallusol, gan gydnabod arfer sydd yn un prif ffrwd a hefyd un sydd ar ffin yr arbenigedd, gan ddewis a rhoi ar waith o'r meysydd hyn fel sy'n briodol. Mae asesiad yn canolbwyntio ar broses yn hytrach na chynnyrch - cynllunio, ymdopi â sefyllfaoedd cymhleth mewn amgylcheddau cysylltiedig â'r proffesiwn a gwerthuso llwyddiant.

Llwybr: Rheolaeth Cerddorfaol

Asesiad: Cynnig Prosiect (75%), Gwerthuso Prosiect (25%)

Bydd y modiwl yn rhoi sgiliau ymarferol, gwybodaeth a meddwl strategol i'r myfyrwyr yn ogystal â sgiliau meddal megis cyfathrebu, dylanwadu a chyflwyno er mwyn llywio eu hymarfer fel rheolwr cerddorfaol a chynllunydd cyngerdd sy'n dod i'r amlwg mewn cyd-destun economaidd a diwylliannol cyfnewidiol, tra'n deall materion ymarferol allweddol a thrafodaethau sy'n berthnasol i'w hymarfer eu hunain. Cymhwysir sgiliau a ddysgwyd er mwyn dethol, rheoli a gwerthuso prosiect a ddewisir gan y myfyrwyr eu hunain. Anogir myfyrwyr i ymgysylltu'n ddeallusol, gan gydnabod yr arfer sy'n cwmpasu'r ystod o gyfleoedd yn y sector – o waith unawdol ac ensemble bach i gerddorfeydd cenedlaethol ac yn y sectorau cymorthdaledig a masnachol. Mae asesiad yn canolbwyntio ar broses yn hytrach na chynnyrch - cynllunio, ymdopi â sefyllfaoedd cymhleth mewn amgylcheddau cysylltiedig â'r proffesiwn a gwerthuso llwyddiant.